



Hysbysiad Cyhoeddus
Adolygiad Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyhoeddi Argymhellion Drafft

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin drwy hyn yn hysbysu, yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus cam cyntaf, bod argymhellion drafft yn awr wedi'u paratoi a'u cyhoeddi.

Mae'r Cyngor yn awr yn cynnal ail gam yr ymgynghoriad fel rhan o'r broses adolygu ac mae'n gwahodd trigolion, grwpiau lleol ac unrhyw bersonau neu sefydliadau eraill sydd â diddordeb i gyflwyno eu barn neu eu sylwadau ar y cynigion drafft.

Gellir gweld y cynigion yn Atodiad Un sydd ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn.

Sut y mae cysylltu â ni:

Gall unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno cynnig neu wneud sylwadau ar yr adolygiad wneud hynny trwy'r dulliau canlynol:

-drwy e-bost: GwasanaethauEtholiadol@sirgar.gov.uk

-drwy'r post: Y Gwasanaethau Etholiadol, Bloc 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i ail gam yr ymgynghoriad yw dydd Llun 7 Awst 2023.

Dyddiedig: 26 Mehefin 2023

Wendy Walters, Swyddog Cofrestru Etholiadol a Chanlyniadau